**<u>Cyngor Tref Amlwch Town Council</u>**

<u>Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd 25/11/2025 yn Siambr y Cyngor am 7yh</u>

*<u>Minutes of the Full Council meeting held 25/11/2025 at the Council Chamber at 7pm</u>*

**Presennol/Present:** Gareth Winston Roberts OBE, Gordon Warren, Myrddin Owens, Liz Wood, Alan Wood, Gareth Thomas, Llinos Knowles Williams, John Gill, Julie Edwards, Meg Roberts, Gerry Belanger, Noel Kerr, Derek Owen
**Ymddiheuriadau/Apologies:** Elin Owen, Geraint Thomas, Aled Morris Jones
**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans Thau (clerc/clerk), Aled Job (cyfieithydd/translator), 3 aelod o'r gymuned / members of the community

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**

Bu Gareth Winston Roberts gadeirio'r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol.
*Gareth Winston Roberts chaired the meeting and welcomed all present.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Liz Wood – (7) Cod Ymarfer / Code of Practice
Gareth Thomas – (11) Ffermydd Solar Farms
Gareth Winston Roberts – (10) Cais Cynllunio Hyfforddiant Parys Training Planning Application
Julie Edwards – (10) Cais Cynllunio Hyfforddiant Parys Training Planning Application

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Cymeradwywyd y cofnodion, cynnig Julie Edwards, eilio Gordon Warren.
*The minutes were approved, proposed Julie Edwards, seconded Gordon Warren.*

**4 Materion yn Codi / Matters Arising**

Gofynnodd Alan Wood pam nad oedd y Cyngor wedi cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Cyllid i gyfrannu £200 at Grŵp Cymunedol Porth Amlwch. Nodwyd bod y cais wedi bod yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau yswiriant ac nid goleuadau Nadolig fel yr awgrymwyd ar-lein. Cwestiynodd Alan Wood pam roedd aelod o'r Pwyllgor Cyllid wedi ailystyried eu cefnogaeth.

Mewn ymateb i'r sibrydion nad yw y Cyngor Tref yn cefnogi Porth Amlwch, nodwyd amrywiol brosiectau a gwariant, gan gynnwys £70k a glustnodwyd ar gyfer prynu'r Lloft Hwyliau. Dywedodd Alan Wood y byddai'n gwrthwynebu unrhyw gynnig a wneir gan y Cadeirydd, a bod pobl yn siomedig. Nododd ei bod yn warth nad oedd gan Gyngor Tref Amlwch goeden Nadolig a'i fod yn ffieiddio â'r Cyngor, ac nad oedd am fod yn rhan ohono. Cadarnhaodd, fodd bynnag, nad oedd yn cyflwyno ei ymddiswyddiad.

Gofynnodd Meg Roberts i Alan Wood egluro beth oedd yn ei olygu wrth ddatgan yn gyhoeddus fod aelodau'r Cyngor yn llenwi eu pocedi eu hunain. Ar ôl cael eu henwi ochr yn ochr ag aelodau eraill, roedd yr honiadau'n annheg ac yn anghyfiawn. Nododd Alan Wood y byddai'n darparu atebion i'r Ombwdsmon yn ei gŵyn. Ymddiheurodd Alan Wood am alw enwau ond gwrthododd dynnu'n ôl unrhyw honiadau enllibus yn erbyn ei gyd-aelodau a oedd yn leinio eu pocedi.

*Alan Wood asked why the Council had not supported the Finance Committee's recommendation to contribute £200 to the Amlwch Port Community Group. It was noted that the application had been requesting a contribution towards insurance costs and not Christmas lights as implied online. Alan Wood questioned why a member of the Finance Committee had reconsidered their support.*

*In response to the rumours that the Town Council does not support Amlwch Port, various projects and expenditure were identified, including £70k earmarked for the purchase of the Sail Loft. Alan Wood stated that he would object to any proposal made by the Chair, and that people were disappointed. He noted that it was a disgrace that Amlwch Town Council did not have a Christmas tree and that he was disgusted with, and did not want to be a part of the Council. He confirmed however that he was not presenting his resignation.*

*Meg Roberts asked Alan Wood to clarify what he meant when stating publicly that members of the Council lined their own pockets. Having been named alongside other members, the allegations were unfair and*

*unjust. Alan Wood noted that he would provide answers to the Ombudsman in his complaint. Alan Wood apologised for name calling but refused to retract any slanderous allegations against his co-members lining their pockets.*

**5 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**

*5.1* Trefi Mon

Rhoddodd Gareth Winston Roberts y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rhwng y pum tref, gan nodi bod cais yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth tuag at gostau cynnal a chadw'r systemau CCTV.

*Gareth Winston Roberts gave an update on the discussions between the five towns, noting that an application is being submitted in partnership towards maintenance and upkeep costs of the CCTV systems.*

*5.2* Ysgol Gynradd Amlwch

Rhoddodd Myrddin Owens grynodeb o gyfarfod diwethaf Llywodraethwyr yr Ysgol. Er ei fod wedi bod yn mynychu ar ran y Cyngor Tref, nododd Myrddin Owens ei fod bellach wedi ei benodi'n aelod o'r Bwrdd fel unigolyn, ac felly, dylai'r Cyngor benodi cynrychiolydd yn ei le.

*Myrddin Owens gave a summary of the last School Governors meeting. Although attending on behalf of the Town Council Myrddin Owens noted that he had since been appointed a member of the Board as an individual, and as such, the Council should appoint a representative in his place.*

*5.3* CAB Ynys Mon

Rhoddodd Gordon Warren drosolwg o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAB. Nododd ei fod wedi diolch i'r sefydliad am eu gwasanaeth parhaus yn Amlwch a'u bod hwythau, yn eu tro, wedi diolch i'r Cyngor Tref am ddefnyddio'r cyfleusterau ac i'r Banc Bwyd am eu cydweithrediad parhaus.

*Ynys Mon CAB – Gordon Warren gave an overview of the CAB AGM. He noted he had thanked the organisation for their continued service in Amlwch and that they in turn had thanked the Town Council for the use of facilities and the Foodbank for their continued co-operation.*

**6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**

Rhoddodd Myrddin Owens grynodeb o gyfarfod y Pwyllgor. Mae rhestr o'r taliadau a gymeradwywyd a rhagor o wybodaeth ar gael gan y clerc fel yr arfer. Cadarnhawyd balansau'r cyfrifon banc. Ystyriwyd dau gais am gefnogaeth. Cynigiodd y Pwyllgor nad oedd y Cyngor yn cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru ar yr achlysur hwn, a bod y Cyngor yn gofyn i Garnifal Amlwch ailgyflwyno eu cais ym mis Ebrill, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Gan nad oedd unrhyw wrthwynebiadau, bu derbyn y cynnigion.

Bu Gareth Winston Roberts ddatgan bod y Cyngor wedi cytuno prynnu'r Llofft Hwyliau i ddiogelu'r adeilad, treftadaeth a hanes Porthladd Amlwch a'r dref yn gyffredinol. Cost y pryniant yw £70k, gyda'r un disgwyl i'w adnewyddu; bydd grantiau'n cael eu ceisio ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r cyfreithiwr wedi cadarnhau bod y trosglwyddiad yn mynd rhagddo.

Dosbarthwyd a thrafodwyd cylch gorchwyl drafft ar gyfer dau is-bwyllgor mewn perthynas â datblygu a rheoli'r Lloft Hwylio – cyflwynwyd gwelliant i'r Cyngor Llawn fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid sef y dylid penodi pum cynghorydd i bob is-bwyllgor (gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor cyllid) ac y byddai cadeirydd yr is-bwyllgorau yn cael ei benodi gan y Cyngor Llawn. Derbyniwyd y dogfennau gyda'r gwelliant uchod.

Dywedodd Myrddin Owens, o ganlyniad i'r honiadau a'r cwestiynu cyhoeddus ynghylch ei onestrwydd a'i uniondeb, a gonestrwydd a chywirdeb y Pwyllgor, ei fod yn camu i lawr fel Cadeirydd ac fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Economaidd ar unwaith. Mynegodd yr aelodau eu sioc a'u siom a derbyniwyd ei ymddiswyddiad yn anfoddog.

*Myrddin Owens gave a summary of the Committee meeting. A list of payments approved and further information is available from the clerk as usual. The bank balances were confirmed. Two applications for funding were considered. The Committee proposed that the Council did not support the Wales Air Ambulance on this occasion, and that the Council request that the Amlwch Carnival re-present their*

*request in April, at the start of the new financial year. There being no objections the proposals were carried.*

*Gareth Winston Roberts stated that the purchase of the Sail Loft has been agreed to safeguard the building, the heritage and history of Amlwch Port and the town in general. The cost of purchase is £70k, with the same anticipated to refurbish; grants will be sought for this work. The solicitor has confirmed that the transfer is progressing.*

*Draft terms of reference for two sub committees with regard to the development and management of the Sail Loft were distributed and discussed – an amendment was put forward to the Full Council as agreed by the finance committee in that five councillors be appointed to each subcommittee (including the chairman of the finance committee) and that the chair of the sub committees would be appointed by the Full Council. The documents were accepted with the above amendment.*

*Myrddin Owens stated that as a result of the allegations and public questioning of his honesty and integrity, and that of the committee, he was stepping down as Chair and as a member of the Finance and Economic Committee with immediate effect. Members voiced their shock and disappointment and his resignation was reluctantly accepted.*

**7 Cod Ymarfer / Code of Practice**

Bu gohurio’r eitem nes diwedd y cyfarfod / *The item was deferred to the end of the meeting.*

**8 Diweddariadau Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**

Bu Alan Wood ddatgan bod £800 wedi ei wario ar gostau cyfreithiol heb awdurdod y Cyngor. Mae’r clerc eisioes wedi cadarnhau y byddai yn gwirio y manylion perthnasol. Bu Gareth Winston Roberts nodi bod y gwariant ynghlwm a grant oedd wedi ei ddiogelu tuag y costau perthnasol. Nododd Myrddin Owens fod y costau’n gysylltiedig a’r chwiliadau cyfreithiol priodol a chan fod y Cyngor wedi penderfynnu caffael y Llofft Hwyliau, roedd yn ofynnol yn awtomatig i chwiliadau o’r fath gael eu gwneud er mwyn amddiffyn buddiannau cyfreithiol y Cyngor.

Bu Gareth Winston Roberts gadarnhau er budd y cofnodion bod y Cyngor Tref yn prynnu’r Llofft Hwyliau, bod y Cyngor mewn trafodaethau gyda Menter Mon a Geo Mon ynglyn a’r Hen Oleudy, a bod Hyfforddiant Parys wedi prynnu’r Biniau Copr. Bydd hyn yn diolgelu’r adeiladau i’r dyfodol.

Nodwyd bod HPT (cwmni di elw) wedi prynnu’r Biniau Copr oherwydd nad oedd posib i’r Cyngor wneud hynnu. Pwrpas y pryniant oedd i geisio cefnogi a cadw’r Ymddiriedolaeth Treftadaeth ym Mhorth Amlwch. Cafwyd gadarnhad nad oedd unrhyw gyfarwyddwyr yn cael eu talu gan y cwmni, a bod asedau HPT yn cael eu trosglwyddo i’r Cyngor Tref petai diddymu’r cwmni.

*Alan Wood stated that £800 had been spent on legal costs without the Council's authority. The clerk has already confirmed that she would check the relevant details. Gareth Winston Roberts pointed out that the expenditure was linked to a grant that had been secured towards the relevant costs. Myrddin Owens noted that the costs were linked to the appropriate legal searches and since the Council had decided to acquire the Sail Loft, it was automatically required that such searches be carried out in order to protect the Council's legal interests.*

*Gareth Winston Roberts confirmed for the benefit of the minutes that the Town Council is buying the Sail Loft, that the Council is in discussions with Menter Mon and Geo Mon regarding the Old Watchtower, and that Parys Training (HPT) had bought the Copper Bins. This will protect the buildings for the future.*

*It was noted that HPT (a not-for-profit company) bought the Copper Bins because it was not possible for the Council to do so. The purpose of the purchase was to try to support and promote the Heritage Trust at Amlwch Port. It was confirmed that no directors were paid by the company, and that HPT's assets were to be transferred to the Town Council should the company be liquidated.*

**9 Ystyried Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau (Llofft Hwyliau) / To consider Sub Committee Terms of Reference (Sail Loft)**

Gweler eitem 6 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / *See item 6 Finance Committee Report.*

**10 Materion Cynllunio / Planning Matters**

10.1 Trafodwyd y ceisiadau canlynol / *The following applications were discussed:*

- 15 Stryd Salem (FPL/2025/220) Bu Gareth Winston Roberts a Julie Edwards adael yr ystafell gyfarfod a bu cadeirio'r eitem gan Gerry Belanger. Bu Alan Wood wrthwynebu gan nodi problemau parcio ar stryd, a bod y busnes eisioes yn weithredol. Nodwyd bod parcio tu cefn i'r adeilad a hefyd bod maes parcio CSYM gyferbyn. Mae'r busnes yn darparu gwasanaeth iechyd bwysig ac yn rhyddhau pwysau oddi ar y ganolfan iechyd. Bu Gordon Warren gynnig ymateb yn ddi-wrthwynebiad, cefnogwyd y cynnig gan Meg Roberts, Noel Kerr, Gareth Thomas, Myrddin Owens, Llinos Knowles Williams a Gerry Belanger. Bu Alan Wood, Liz Wood a John Gill wrthwynebu. / *Gareth Winston Roberts and Julie Edwards left the meeting room and the item was chaired by Gerry Belanger. Alan Wood objected stating street parking problems, and that the business is already operational. It was noted that there is parking at the back of the building and also that the IACC car park is opposite. The business provides an important health service and takes pressure off the health centre. Gordon Warren proposed a response without opposition, the proposal was supported by Meg Roberts, Noel Kerr, Gareth Thomas, Myrddin Owens, Llinos Knowles Williams and Gerry Belanger. Alan Wood, Liz Wood and John Gill objected.*
- Mount View, Llaneilian Rd (LUE/2025/15) dim sylwadau pellach / no further observations
- The Barn, Hafodllin Fawr (FPL/2025/241) dim sylwadau pellach / no further observations

10.2 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*

- Y Fron Amlwch (FPL/2025/213) wedi ei ganiatau / approved
- Gwyndy, Ffordd Porth Llechog (VAR/2025/49) wedi ei ganiatau / approved
- Clwb Golff Porth Llechog (FPL/2025/216) wedi ei ganiatau / approved

**11 Ffermydd Solar Farms**

Bu Gareth Thomas adael yr ystafell gyfarfod. Cafwyd ddiweddariad gan Gareth Winston Roberts am y sefyllfa bresennol. Nid oes gwybodaeth pellach am gais adolygiad barnwrol CSYM hyd yma, bu cydnabod bod y broses gyfreithiol yn cymryd amser.

*Gareth Thomas left the meeting room. Gareth Winston Roberts gave an update on the current situation. There is no further information about the IACC judicial review to date, it has been acknowledged that the legal process takes time.*

**12 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

Bu Alan Wood ofyn i Derek Owen gysylltu a'r swyddogion perthnasol i dynnu sylw at olau diffygiol ar Lon Gas. Mae Liz Wood eisioes wedi eu hyrwyddo o'r broblem.

*Alan Wood asked Derek Owen to contact the relevant officers to draw attention to a faulty light on Lon Gas. Liz Wood has already notified them of the problem.*

**13 Gohebiaeth / Correspondence**

Cadarnhawyd bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon drwy ebost fel y derbyniwyd.
*It was confirmed that any correspondence had been sent by email as received.*

**7 Cod Ymarfer / Code of Practice**

Bu Liz Wood ac Alan Wood adael y cyfarfod. Bu rhannu adroddiad wedi ei baratoi gan Myrddin Owens i'r aelodau oedd yn bresennol a bu egwyl i roi cyfle i'r aelodau ei ddarllen. Bu tynnu sylw at reol cyffredinol yn ymwneud a phresenoldeb y cyhoedd wrth drafod materion o'r fath. Bu Myrddin Owens gynnig, wrth ystyried eitem 7 ar agenda'r cyfarfod, y dylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol a darpariaeth Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd)1960 am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r eitem yn ymwneud ag ymddygiad Cynghorydd a allai arwain at cwyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu nad oedd unrhyw dorri'r Codau Ymarfer wedi digwydd, byddai'n annheg i'r Cynghorydd pe bai'r cyhoedd yn ymwybodol o'r gwyn.
2. Gallai natur y toriad honedig fod yn destun achos llys a gallai caniatau i'r cyhoedd for yn bresennol arwain at ragfarnu'r rhai sy'n gwneud achos.

3. Er mwyn sicrhau nad oes torriad Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredin.

Bu eilio'r cynnig gan Gareth Winston Roberts, a bu cefnogaeth unfrydol ond am John Gill bu atal ei bleidlais. Bu'r cyhoedd gan gynnwys Cyng.Derek Owen adael y cyfarfod am 8yh.

Nodwyd siom bod mater o'r fath wedi ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod. Trafodwyd y mater mewn manylder a bu cynnig cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon yn sgil torri rheol 6.1.6 y Cod Ymddygiad. Cynnig Myrddin Owens, eilio John Gill, bu'r aelodau oedd yn bresennol yn unfrydol gefnogol bod cwyn yn cael ei gyflwyno a bu gofyn i'r clerc wneud hynnu ar ran y Cyngor.

*Liz Wood and Alan Wood left the meeting. A report prepared by Myrddin Owens was shared with the members present and the meeting adjourned whilst members were given the opportunity to read the document. Attention was drawn to a general rule relating to the presence of the public when discussing such matters. Myrddin Owens proposed that, during consideration of item 7on the agenda of the meeting, that the Public and the Press should be excluded in accordance with the provision of the Public Bodies (Access to Meetings) Act 1960 for the following reasons:*

1. *The item relates to the behaviour of a Councillor which could lead to a complaint to the Local Government Ombudsman. If the Ombudsman decided that no breach of the Codes of Practice had occurred, it would be unfair to the Councillor if the public were aware of the complaint.*
2. *The nature of the alleged breach could be the subject of court proceedings and allowing the public to be present could lead to the prejudice of those making a case.*
3. *To ensure that there is no breach of Common Data Protection Regulations.*

*The motion was seconded by Gareth Winston Roberts, and there was unanimous support but for John Gill his vote was withheld. Members of the public including Cllr. Derek Owen left the meeting at 8pm.*

*Disappointment was noted that such an issue was included on the agenda of the meeting. The matter was discussed in detail and there was a proposal to submit a complaint to the Ombudsman due to a breach of rule 6.1.6 of the Code of Conduct. Proposed by Myrddin Owens, seconded by John Gill, the members present were unanimously supportive of a complaint being presented to the Ombudsman and the clerk was asked to proceed on behalf of the Council.*

**14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Cynhelir cyfarfod cyffredinol nesaf y Cyngor Llawn nos Fawrth Rhagfyr 16, 2025 am 7yh, wythnos yn gynt na'r arfer. Bu'r cyfarfod orffen am 8.20yh

*The next ordinary meeting of the Full Council will be held Tuesday December 16, 2025 at 7pm, a week earlier than usual. The meeting closed at 8.20pm.*

**Gareth Winston Roberts OBE**
**Cadeirydd/Chair**
**Cygnor Tref Amlwch Town Council**

CET11-25